

# Negeseuon allweddol o waith ymchwil ar nodi datgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddynt

Debra Allnock, Y Ganolfan Ryngwladol: Ymchwilio i  
gam-fanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu plant a  
thrais yn eu herbyn (Prifysgol Swydd Bedford)

Pam Miller a Helen Baker, NSPCC

Medi 2019

## Negeseuon allweddol

Mae datgeliadau plant o gamdriniaeth rywiol yn amrywio o ran y dull cyfathrebu, y bwriad, y natur ddirybu a faint o fanylion a roddir. Y ffordd orau o ddeall datgeliad yw fel proses y mae perthnasoedd a'r ymwneud ag eraill yn dylanwadu arni a gall ymestyn dros gyfnod sylweddol o amser.

Mae cyfraddau datgeliadau ar lafar yn isel yr adeg y mae'r cam-drin yn digwydd yn ystod plentyndod. Fodd bynnag, dywed plant eu bod yn ceisio datgelu eu camdriniaeth pan fyddant yn dangos neu'n gweithredu mewn ffyrdd y maent yn gobeithio y bydd oedolion yn sylwi arnynt ac yn ymateb iddynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant anabl.

Mae angen i weithwyr proffesiynol gofio y gallai unrhyw blentyn fod yn ceisio datgelu, ond gall rhai plant wynebu rhwystrau ychwanegol rhag datgelu oherwydd eu hanabledd, eu rhyw, eu hethnigrwydd a/ neu eu cyfeiriadedd rhywiol.

Gall y weithred o ddatgelu camdriniaeth rywiol ddwysáu cywilydd ac euogrwydd. Efallai y bydd ymatebion 'eraill' i ddatgeliadau yn cymhlethu'r effeithiau hyn. Ni ddylai hyn atal gweithwyr proffesiynol rhag rhoi cyfleoedd i blant ddatgelu, ond mae'n hanfodol bod plant a'u teuluoedd yn cael cefnogaeth briodol ar ôl iddynt ddatgelu.

Gall ystod o rwystrau unigol, perthynol a chymdeithasol cymhleth a rhyngweithiol atal plant rhag datgelu camdriniaeth, i weithwyr proffesiynol neu i unrhyw un arall.

Athrawon yw'r gweithwyr proffesiynol y bydd y plant yn datgelu iddynt fel arfer, ond gall y broses ddatgelu gael ei chynorthwyo neu ei llyffetheirio gan y ffordd y mae unrhyw weithiwr proffesiynol yn ymwneud â phlentyn y mae pryderon yn ei gylch.

Mae ar blant eisiau cael eu sylwi gan weithwyr proffesiynol cyfeillgar, y mae'n hawdd mynd atynt, sy'n ofalgar, ac y maent wedi meithrin perthynas â nhw lle gellir ymddiried ynddynt. Mae arnynt eisiau i bobl ofyn sut mae hi arnynt a beth sy'n digwydd, fel bod ganddynt gyfle i gael deialog agored.

Mae cyfrinachedd yn bwysig i blant, ond gall fod yn anodd ei gydbwyo â chyfrifoldebau diogelu gweithwyr proffesiynol. Efallai y bydd gweithwyr proffesiynol yn teimlo tensiwn yn hyn o beth yn eu perthynas â'r plentyn. Os na fydd yn bosib cynnal cyfrinachedd ar ôl datgeliad, mae'n bwysig bod yn agored, yn onest ac yn dryloyw gyda'r plentyn.

**Noder:** Cyfeiria'r term 'plant' yn y ddogfen hon yn gyffredinol at unigolion dan 18 mlwydd oed.

Mae ein papurau 'Negeseuon allweddol o ymchwil' yn darparu gwybodaeth gryno a pherthnasol ar gyfer ymarferwyr rheng flaen a chomisiwnwyr. Maent yn crynhoi'r ymchwil ddiweddaraf mewn trosolwg hygyrch, gan gefnogi'n hyderus yr ymatebion gorau posibl i gam-drin plant yn rhywiol.

## Beth a olygwn gyda datgeliad?

Mae modd dehongli'r term 'datgelu' yn wahanol ar draws cyd-destunau proffesiynol (Alaggia et al, 2019; Cossar et al, 2013). Yma, caiff datgeliad ei ddiffinio'n fras fel "person yn cyfleu ei brofiad i berson arall" (Cossar et al, 2013: 13). Mae plant yn cyfleu'r profiadau hyn mewn sawl ffordd wahanol (Alaggia, 2004).

Y ffordd orau o ddeall y weithred o ddatgelu achos o gam-drin plant yn rhywiol yw fel 'proses' y mae nodweddion a rhinweddau perthnasoedd ym mywydau plant yn dylanwadu arni, a gall esblygu dros gyfnod estynedig o amser (Jensen et al, 2005; Reitsema a Grietens, 2016). Er bod swp cynyddol o waith ymchwil yn y Deyrnas Unedig i ddatgeliadau plant sy'n tynnu ar eu lleisiau, prin fu'r gwaith ymchwil i brofiadau gweithwyr proffesiynol wrth gydnabod a derbyn datgeliadau.

Mae achosion o ddatgelu camdriniaeth yn digwydd oddi fewn i berthynas sydd gan blant ag eraill a chânt eu hwyluso gan y berthynas hon (Baker et al, 2019; Jensen et al, 2005, Larner, 2018). Wrth ymateb i ddatgeliadau, mae'n hanfodol deall y gwahanol ffyrdd y mae plant yn datgelu yn ôl pedwar ffactor sy'n gorgyffwrdd: dull cyfathrebu, bwriad, natur ddirybudd a manylder.

### Y Dull cyfathrebu

Mae rhai plant yn cyfleu eu camdriniaeth yn uniongyrchol trwy ddulliau llafar, tra bod eraill yn gwneud hynny'n anuniongyrchol (e.e. "Dw i ddim eisiau mynd i dŷ taid dim mwy") (Alaggia, 2004), neu gallant ddefnyddio geirfa y mae'r tramgwyddwr wedi'i defnyddio (e.e. siarad am 'gyfrinachau' neu 'gema'u') neu iaith oedolion nad yw'n briodol i'w cyfnod datblygu (Allnock a Miller, 2013).

Mae dulliau mynegi dieiriau yn cynnwys ysgrifennu llythyrau, tynnu lluniau neu chwarae gyda doliau (Alaggia, 2004; Jensen et al, 2005). Gall plant iau ymddangos fel pe baent yn glynu wrth rai pobl neu'n strancio; a gall plant hŷn a'r rhai yn eu harddegau dynnu'n ôl, hunan-niweidio, arddangos dicter, osgoi pobl a rhedeg i ffwrdd. Gall hyd yn oed ymddygiadau cadarnhaol fel 'bod yn dda' fod yn arwydd bod plant eisiau sylw (Brattfjell a Flåm, 2019; Cossar et al, 2013).

Gall plant anabl fod yn fwy tebygol nag eraill o arddangos ymddygiadau fel arwyddion, yn enwedig felly lle na allant gyfathrebu ar lafar ag oedolion. Mae'n bwysig deall yr ymddygiadau hyn ac nid yn unig eu priodoli i nam y plentyn (Taylor et al, 2015).

### Bwriad

Mae rhai plant yn datgelu camdriniaeth yn fwriadol – er mwyn atal camdriniaeth rhag digwydd, ceisio cefnogaeth emosiynol, neu er mwyn gwarchod brodyr a chwiorydd neu blant eraill y maent yn poeni y gallant fod mewn perygl (Alaggia, 2004; Allnock a Miller, 2013). Efallai y bydd ar eraill 'eisiau dweud' ond yn yr un modd 'ddim eisiau dweud'; (McElvaney et al, 2012) gallai datgeliad anfodlon fod yn un canlyniad o hyn.

Gall datgeliadau fod yn anfwriadol, lle teimla plant y cânt eu gorfodi, eu cymell neu eu gwthio i ddatgelu yn dilyn dyst trydydd parti i'r cam-drin, darganfod tystiolaeth neu deimlo rheidrwydd oherwydd bod eraill yn ceisio deall beth allai fod y tu ôl i ymddygiad y plentyn (Alaggia, 2004; Mathews et al, 2016).

Pan geir datgeliad dieiriau, gall ymddygiad y plentyn fod yn fwriadol, i gyfleu neges bod rhywbeth o'i le (Alaggia, 2004; Brattfjell a Flåm, 2019). Hyd yn oed os yw arwyddion ymddygiad yn anfwriadol, gallant nodi bod rhywbeth o'i le, a dylai gweithwyr proffesiynol gydnabod hyn ac ymateb iddynt (Comisiynydd Plant Lloegr, 2015).

Mae honiadau ffug yn brin, ond lle maent yn digwydd, dylanwad gormodol trydydd parti neu arddulliau cwestiynu anaddas yw'r rheswm amdanynt fel arfer. (London et al, 2008; O'Donohue et al, 2018).

## Natur ddirybudd

Mae rhai datgeliadau o natur ddirybudd, yn dilyn cydnabyddiaeth y plentyn, dros amser, bod cam-drin wedi digwydd (Cossar et al, 2013). Gall datgelu gael ei sbarduno gan wers yn yr ysgol, rhaglen deledu neu gan y cam-drin yn gwaethygu, neu gall ddigwydd ar ddamwain (Alaggia, 2004; Allnock a Miller, 2013). Gall datgeliadau adeiladu dros amser hyd nes na all plentyn gadw'r gyfrinach mwyach – “effaith sosban bwysau” (McElvaney, et al, 2012: 1163).

Fel arall, efallai na fydd datgeliad yn ddirybudd o gwbl, gan ddigwydd pan ofynnir i'r plentyn yn ystod, er enghraift, archwiliad meddygol, cyfweliad ymchwiliol neu sesiwn therapiwtig – neu pan fo athro neu weithiwr iechyd proffesiynol yn sylwi y gallai rhywbeth fod o'i le ac yn gofyn (Alaggia, 2004; Sorenson a Snow 1991).

## Manylion

Gall y manylion a roddir mewn datgeliad fod yn amwys neu'n absennol. Mae natur datgelu fel proses yn golygu bod rhai datgeliadau yn rhannol; gallai mwy o fanylion ddod i'r amlwg dros amser neu efallai ddim (Allnock, 2018; McElvaney, 2015). A bydd manylion ar goll yn llwyr pan gyfleir datgeliad trwy ymddygiadau neu arwyddion eraill.

## Pwy sy'n datgelu achos o cam-drin plant yn rhywiol?

Mae astudiaethau wedi canfod amrywiad sylweddol yng nghyfraddau datgelu camdriniaeth rywiol, gan ddibynnu ar y sampl a'r ffordd y caiff datgeliad ei fesur. Mewn astudiaeth ddiweddar, ni adroddwyd ar ymdrechion dieiriau i gyfathrebu camdriniaeth mewn arolwg, ond fe'u disgrifiwyd gan bobl ifanc mewn cyfweliadau dilynlol (Allnock a Miller, 2013). Mewn astudiaethau o bobl ifanc yn eu harddegau cynnar o Sgandinafia, dywedodd rhwng 79% ac 83% oedd wedi'u cam-drin eu bod wedi siarad â rhywun amdano (Helweg-Larsen a Larsen, 2006; Priebe a Svedin, 2008), tra canfu adolygiad o 13 astudiaeth ryngwladol fod 31% i 45% o oedolion â hanes o gamdriniaeth wedi siarad am eu camdriniaeth ag oedolyn yn fuan wedi hynny neu yn ystod eu plentyndod (London et al, 2008).

Mae genethod sy'n cael eu cam-drin yn fwy tebygol na bechgyn o ddatgelu'r gamdriniaeth i rywun yn ystod plentyndod (Priebe a Svedin, 2008; Radford et al, 2011).

Mae'r dystiolaeth yn fwy cymysg wrth ystyried ethnigrwydd. Er bod rhwystrau unigryw i blant o rai cefndiroedd ethnig du a lleiafrifol rhag datgelu camdriniaeth, nid yw'n hysbys a yw hyn yn golygu bod y cyfraddau datgelu'n is (Bailey et al, 2017; Bottoms et al, 2016; Springman et al, 2006).

Mae plant anabl yn llai tebygol na phlant eraill o ddatgelu y cânt eu cam-drin; gwelwyd bod hyn yn wir ar draws ystod o anableddau (Hershkowitz et al, 2007a; Sullivan a Knutson, 2000).

Nid oes dystiolaeth ar gael ar gyfraddau datgelu ymhliith plant lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws a chwiar / chwilfrydig. Ychydig a wyddom am gyfraddau datgelu ymhliith plant mewn cyd-destunau amrywiol, megis plant mewn gofal neu mewn sefydliadau.

## Beth yw effeithiau datgelu?

Gall datgelu fod yn drawmatig a gall gael effeithiau tymor byr a thymor hir ar les emosiyonol plant (Arata, 1998; Feiring et al, 2002). Nid yw hyn yn golygu na ddylai gweithwyr proffesiynol roi cyfle i blant ddatgelu, ond mae'n golygu y bydd angen cefnogaeth ar blant, a'u teuluoedd, trwy'r broses.

Dywed rhai plant eu bod yn teimlo 'rhyddhad' a 'balchder' ar ôl datgelu. Fodd bynnag, mae plant hefyd yn nodi eu bod yn teimlo embaras, dicter a thristwch (Berliner a Conte, 1995; Foster et al, 2014). Mae rhai yn disgrifio eu bywyd yn "syrthio'n ddarnau" ar ôl datgelu camdriniaeth rywiol, ac yn dweud bod "pethau'n gwaethygyn cyn iddynt wella" (Cossar et al, 2013; Warrington et al, 2017). Gall datgelu arwain at deimladau dwysach o gywilydd ac euogrywedd, y mae'r ddau ohonynt yn brosesau emosiyonol pwysig wrth ddatblygu anhwylder straen wedi trawma (PTSD) sy'n gysylltiedig â chamdriniaeth rywiol yn erbyn plant (Feiring et al, 2002). Gwelwyd bod PTSD yn dwysáu yn enwedig lle mae eraill yn ymateb yn negyddol i'r datgeliad (McTavish et al, 2019). Mae pobl ifanc yn eu harddegau cynnar yn ymddangos yn fwy agored i broblemau tymor hwy fel iselder ysbryd a hunan-barch isel unwaith y daw'r gamdriniaeth yn hysbys (Feiring et al, 2002).

Efallai y bydd aelodau'r teulu'n ei chael hi'n anodd deall ac ymateb yn briodol i ddatgeliadau, yn enwedig lle mai rhywun yn y teulu neu'n agos ato oedd yn camdrin (Allnock a Miller, 2013). Mae ymatebion negyddol i ddatgeliad gan bobl eraill yn niweidiol i les plant a gallant eu hatal rhag gwneud datgeliadau pellach (Ullman, 2002; Crisma et al, 2004). Dylai gweithwyr proffesiynol ystyried cefnogaeth briodol i blant a'u teuluoedd, yn y cyfnod yn syth ar ôl y datgelu.

Gellir digwydd y caiff datgeliadau eu tynnu'n ôl hyd yn oed pan fo dystiolaeth gyfnerthol. Mae astudiaethau o achosion a brofwyd o gamdriniaeth rywiol yn erbyn plant wedi nodi cyfraddau tynnu'n ôl sydd ymhell dan 10% (London et al, 2008), er i un astudiaeth – sy'n canolbwytio ar achosion wedi'u profi lle gallai datgelu arwain at symud y plentyn o gartref y teulu – ganfod bod 23% o ddatgeliadau wedi'u tynnu'n ôl (Malloy et al, 2007). Mae tynnu datgeliadau'n ôl yn fwy cyffredin mewn plant iau, lle nad yw rhieni / gofalwyr nad ydynt yn camdrin yn dangos cefnogaeth neu lle mae'r tramgyddwr yn aelod agos o'r teulu (Elliott a Briere, 1994; Malloy et al, 2007).

Gall datgeliadau hefyd gael effaith ar les gweithwyr proffesiynol (Ahern et al, 2017a). Noda rhai gweithwyr proffesiynol mai anaml y byddant yn teimlo neu'n mynegi emosiwn yn ystod datgeliad, gan eu bod yn canolbwytio ar y plentyn, a'u bod yn rheoli'r effaith emosiyonol y tu allan i'r gweithle (Ahern et al, 2017b). Mae gweithwyr proffesiynol wedi nodi eu pryder ynghylch cyfleo lefel briodol o emosiwn i blentyn sy'n datgelu, gan nodi pwysigrwydd rheoli mynegiant ei wyneb ei hun wrth dawelu meddwl plentyn (Baker et al, 2019).

## Datgelu – y daith

Mae llawer o blant nad ydynt yn datgelu camdriniaeth rywiol ar lafar hyd nes eu bod yn oedolion (Lemaigre et al, 2017; London et al, 2008). Rhaid deall beth yw peidio â datgelu ac oedi wrth ddatgelu yng nghyd-destun yr heriau sylweddol y mae plant yn eu hwynebu wrth geisio cymorth yn dilyn camdriniaeth rywiol. Mae heriau datblygiadol ac emosiynol, perthnasoedd a normau ac arferion cymunedol a chymdeithasol ehangach oll yn dylanwadu ar ddatgeliadau plant. (Alaggia et al, 2019; Collin-Vézina et al, 2015).

### Datgelu mewn lleoliadau anffurfiol, beunyddiol

Mae profiad plentyn o ddatgelu mewn cyd-destunau anffurfiol, beunyddiol, fel y cartref a'r gymuned, yn dylanwadu ar y ffordd y bydd yn ymwneud â gweithwyr proffesiynol y maent yn dod ar eu traws ac yn datgelu iddynt. Er enghraift, mae plant sydd wedi datgelu i aelod o'r teulu neu ffrind yn fwy tebygol o ddatgelu i weithwyr proffesiynol mewn lleoliadau cyfweld fforensig (Azzopardi et al, 2019; Lippert et al, 2009).

Efallai na fydd plant yn datgelu os nad ydynt yn deall camdriniaeth (Allnock a Miller, 2013), neu os yw'r cam-drin yn cael ei normaleiddio mewn cyd-destunau beunyddiol (Allnock ac Atkinson, 2019; Barter et al, 2009). Dywed plant hefyd bod ofn peidio â chael eu credu yn eu hatal rhag datgelu i aelodau'r teulu ar adeg y cam-drin (Allnock a Miller, 2013; Hunter, 2011). Gall tactegau gorfodaeth a ddefnyddir gan dramgyddwr i dawelu plentyn ei atal rhag datgelu, ynghyd â natur y berthynas rhwng y plentyn a'r tramgyddwr (Easton et al, 2014; Kogan, 2004; Leclerc a Wortley, 2015; London et al, 2008; Münzer et al, 2016). Mae plant yn llai tebygol o ddatgelu os ydynt yn disgwyl ymatebion negyddol gan aelodau'r teulu (Hershkowitz et al, 2007b; Schönbucher et al, 2012), ac maent yn poeni yngylch tarfu ar y teulu gyda datgeliadau, yn enwedig felly os yw'r teulu'n mynd drwy amser anodd (Alaggia, 2010; Hunter, 2011; Warrington et al, 2017).

Mewn rhai cymunedau, mae ofnau yngylch gwarchod anrhedd teuluol a / neu gymunedol, normau gormesol sy'n ymwneud ag ufudd-dod plant, parch at bobl hŷn a thabŵau yngylch rhyw a rhywioldeb i gyd yn atal plant rhag datgelu (Brazelton, 2015; Fontes a Plummer, 2010; Sawrikar a Katz, 2017; Shalhoub, 2005; Zalcberg, 2017).

Gall cydnabod ofnau plant yngylch ymatebion pobl eraill i ddatgelu atal gweithwyr proffesiynol rhag hysbysu rhieni y cyfeiriwyd y plentyn at wasanaethau plant – ond mae hysbysu rhieni yn dilyn cyfeiriad o'r fath yn gam pwysig i'w helpu i gael gafael ar gymorth, a gall helpu i leihau tensiwn yn y cartref a allai godi yn sgil gwneud cyfeiriad (Cossar et al, 2013).

Pan fydd plant yn penderfynu datgelu, maent fel arfer yn troi at deulu neu ffrindiau cyn rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol (Allnock a Miller, 2013). O'r teulu, at y fam y mae'r plentyn yn fwy tebygol o droi i ddatgelu. (Jonzon a Lindblad, 2004; Lahtinen et al, 2018). Fodd bynnag, gall plentyn droi at aelodau eraill o'r teulu, ffrindiau'r teulu a chymdogion i ddatgelu (Lahtinen et al, 2018; Schaeffer et al, 2011). Mae plant iau yn fwy tebygol o ymddiried mewn rhiant neu aelod o'r teulu, tra bod pobl ifanc yn eu harddegau cynnar yn fwy tebygol o ymddiried mewn ffrind neu gyfoed (Lahtinen et al, 2018; Ungar et al, 2009). Mae ffrindiau'n chwarae rhan sylweddol wrth gydnabod pan fo'u cyfoedion yn ei chael hi'n anodd (Allnock, 2015), a chlywed datgeliadau o gam-drin rywiol (Bottoms et al, 2016; Priebe a Svedin, 2008). I weithwyr proffesiynol, mae deall rhwydweithiau dibynadwy plant yng nghartref y teulu a'r tu allan iddo'n bwysig er mwyn deall profiadau cyn datgelu a datblygu strategaethau ar gyfer eu cefnogi.

### Datgelu mewn lleoliadau cyffredin

Mae gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau cyffredin megis iechyd ac addysg mewn sefyllfa dda i adnabod plant sy'n cael eu cam-drin neu sydd wedi'u cam-drin ac a allai fod yn ceisio cyfleo hyn. Athrawon yw'r gweithwyr proffesiynol y mae plant fel arfer yn troi atynt gyda'u datgeliadau cychwynnol (Allnock a Miller, 2013; Cossar et al, 2013).

Mae plant wedi disgrifio profiadau cymysg o ddatgelu i athrawon, sy'n tynnu sylw at negeseuon ymarfer allweddol i bob ymarferydd. Mae ar blant eisiau i athrawon sylwi ar arwyddion fel hunan-niweidio; anhwylderau bwyta; camymddwyn yn y dosbarth; presenoldeb ysgol; a bod ar ei ben ei hun ac yn dawedog yn yr ysgol (Alaggia, 2004; Alaggia, 2010; Allnock a Miller, 2013). Mae gweithwyr proffesiynol a phlant yn tynnu sylw at bwysigrwydd perthynas y gellir ymddiried ynddi rhwng plentyn a gweithiwr proffesiynol dibynadwy (Allnock ac Atkinson, 2019; Cossar et al, 2013) sy'n rhoi cyfle i'r plentyn ddatgelu (Cossar et al, 2013; Jensen et al, 2005). Mae 'sylwi' a 'cyfle' yn pwysleisio bod datgelu yn ddibynnol ar berthynas

ac yn dod i'r amlwg trwy ddeialog agored (Flåm a Haugstvedt, 2013; Jensen et al, 2005). Efallai y bydd angen cyfnodau sylweddol o amser ar blant i greu'r berthynas ddibynadwy sy'n gymorth i ddatgelu (Ahern et al, 2017b; Lefevre et al, 2017), yn enwedig os ydynt wedi cael profiadau negyddol blaenorol o ymwneud â phobl mewn awdurdod (Ahern et al, 2017b). Gall gweithwyr proffesiynol brofi tensiwn rhwng mynd ar gyflymder plentyn ac ymateb i protocol diogelu (Baker et al, 2019; Lefevre et al, 2018).

Mae cyfrinachedd hefyd yn bwysig i blant sy'n poeni am golli rheolaeth dros eu gwybodaeth (Cossar et al, 2013; McElvaney et al, 2012). Mae gweithwyr proffesiynol wedi tynnu sylw at yr heriau o gydbwys o cyfrinachedd â chyfrifoldebau diogelu. Gall rhannu gwybodaeth yn rhy gynnar beryglu ymdeimlad o ymddiriedaeth plentyn, ond mae peidio â gweithredu ar wybodaeth yn peryglu plentyn o ran cael ei gam-drin eto yn ogystal â methu cydymffurfio â gweithdrefnau diogelu sefydliadol (Cossar et al, 2013). Pwysleisia gweithwyr proffesiynol bwysigrwydd bod yn agored, yn onest ac yn dryloyw os na fyddai'n bosib cynnal cyfrinachedd yn dilyn datgeliad (Lefevre et al, 2017; Cossar et al, 2013).

Mae ar blant eisiau cael gwybod yn rheolaidd am yr hyn fydd yn digwydd nesaf (Allnock a Miller, 2013; Beckett a Warrington, 2015). Mae gweithwyr proffesiynol yn cydnabod pwysigrwydd cymryd yr amser i egluro'n glir beth allai ddigwydd nesaf, ond maent yn wynebu anhawster pan fydd angen cymryd camau amddiffyn yn erbyn dymuniadau'r plentyn (Cossar et al, 2013; Lefevre et al, 2017). Mewn achosion o'r fath, gellir ailadeiladu ymddiriedaeth trwy gynnwys plant mewn sgyrsiau ynghylch pa gamau y mae angen eu cymryd, pam a phryd (Lefevre et al, 2017). Bydd materion cyfrinachedd a hysbysu plant yn rheolaidd yn berthnasol i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y systemau amddiffyn plant a chyflawnder troseddol.

## Datgelu mewn lleoliadau amddiffyn plant ffurfiol

Mae plant yn lleiaf tebygol o ddatgelu camdriniaeth rywiol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y system amddiffyn plant. Mae gweithwyr proffesiynol o'r fath yn fwy tebygol o dderbyn adroddiadau o gam-drin yn dilyn adroddiadau gan eraill, trwy ddarganfod tystiolaeth neu drwy ymchwiliad (Helweg-Larsen a Larsen, 2006; Priebe a Svedin, 2008).

Mae datgeliad cychwynnol i'r heddlu hefyd yn annhebygol, oherwydd efallai na fyddai plant yn credu bod y gamdriniaeth yn drosedd; nid ydynt yn credu y bydd yr heddlu'n eu cadw'n ddiogel; teimlant fel pe bai neb yn eu credu; neu mae arnynt ofn cael y bai, mynd i drafferth neu gael y tramwyddwr i drafferth (Allnock, 2018; Beckett et al, 2013; Beckett a Warrington, 2014; Beckett a Warrington, 2015). Waeth sut neu pam y daw'r heddlu i gysylltiad â phlant, mae'r cyswllt cychwynnol yn ganolog wrth adeiladu hyder plentyn a gallai gefnogi datgeliadau (Beckett a Warrington, 2015). Mae ar blant eisiau i'r heddlu weithredu gyda sensitifrwydd a pharch, nid eu barnu, cymryd rhan gadarnhaol mewn gwneud penderfyniadau, a'u hysbysu'n rheolaidd (Allnock a Miller, 2013; Beckett a Warrington, 2015).

Mae plant yn annhebygol o ddatgelu i weithwyr cymdeithasol oherwydd efallai bod arnynt ofn beth fydd yn digwydd pan gaiff gweithwyr cymdeithasol eu dwyn i mewn a phoeni y bydd gweithwyr cymdeithasol yn eu barnu. Mae ar blant eisiau i weithwyr cymdeithasol ddangos diddordeb byw ynddynt, hyd yn oed pan fyddant yn ymweld am resymau eraill; deall natur eu problemau a'u hymddygiadau; bod yn ddiuedd wrth asesu amgylchedd y cartref; siarad â nhw ar wahân i aelodau eraill o'r teulu; a gofyn y cwestiynau cywir, fydd yn helpu i ddarparu llwybr iddynt ddatgelu camdriniaeth (Gilligan, 2016; Horvath et al, 2014; Morrison, 2016).

Mae gweithwyr proffesiynol yn pwysleisio pwysigrwydd gwrthweithio canfyddiadau negyddol yr heddlu a gofal cymdeithasol, gan argymhell bod y rhai sy'n gweithio gyda phlant yn ymddangos yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ofalgar (Ahern et al, 2017b). Maent yn cydnabod bod angen i lawer o blant deimlo eu bod yn cael eu credu pan fyddant yn datgelu (Lefevre et al, 2017). Ar y llaw arall, rhaid i'w hymatebion fod yn unol â pholisiau diogelu, a all gynnwys canllawiau ar sicrhau nad yw eu gwaith neu eu gweithredoedd yn dylanwadu ar y datgeliad. Teimla gweithwyr proffesiynol ei bod yn bwysig derbyn "cyfrif a theimladau plentyn heb farnu" (Baker et al, 2019: 7), a bod canolbwytio ar yr hyn y mae'r person ifanc yn ei gyfleo – yn enwedig rhoi sylw gan ddefnyddio iaith corff a sgiliau gwrando cadarnhaol – yn hanfodol i greu amgylchedd cefnogol ar gyfer datgeliadau (Baker et al, 2019, Lefevre et al, 2017). Amlygant angen i geisio peidio ag ymateb gyda syndod na braw i'r hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud (Denov, 2003; Lefevre et al, 2017).

## Cyfeiriadau

- Ahern, E., Sadler, L., Lamb, M. a Gariglietti, G. (2017a) Wellbeing of professionals working with suspected victims of child sexual exploitation. *Child Abuse Review*, 26(2):130–140.
- Ahern, E., Sadler, L., Lamb, M. a Gariglietti, G. (2017b) Practitioner perspectives on child sexual exploitation: Rapport building with young people. *Journal of Child Sexual Abuse*, 26(1):78–91.
- Alaggia, R. (2010) An ecological analysis of child sexual abuse disclosure: Considerations for child and adolescent mental health. *Journal of the Canadian Academy of Adolescent Psychiatry*, 19(1):32–39.
- Alaggia, R. (2004) Many ways of telling: Expanding conceptualizations of child sexual abuse disclosure. *Child Abuse & Neglect*, 28(11):1213–1227.
- Alaggia, R., Collin-Vézina, D. a Lateef, R. (2019) Facilitators and barriers to child sexual abuse (CSA) disclosures: A research update (2000–2016). *Trauma, Violence & Abuse*, 20(2):260–283.
- Allnock, D. (2018) Disclosure of CSE and other forms of sexual abuse: Is an integrated evidence base required? Yn Beckett, H. a Pearce, J. (gol). *Understanding and Responding to Child Sexual Exploitation*. Abingdon: Routledge.
- Allnock, D. (2015) Child maltreatment: How can friends contribute to safety? *Safer Communities*, 14(1):27–36.
- Allnock, D. a Atkinson, R. (2019) ‘Snitches get stitches’: School-specific barriers to victim disclosure and peer reporting of sexual harm committed by young people in school contexts. *Child Abuse & Neglect*, 89:7–17.
- Allnock, D. a Miller, P. (2013) *No One Noticed, No One Heard: Disclosures of Abuse in Childhood*. London: NSPCC.
- Arata, C. (1998) To tell or not to tell: Current functioning of child sexual abuse survivors who disclosed their victimization. *Child Maltreatment*, 3(1):63–71.
- Azzopardi, C., Eirich, R., Rash, C., MacDonald, S. a Madigan, S. (2019) A meta-analysis of the prevalence of child sexual abuse disclosure in forensic settings. *Child Abuse & Neglect*, 93:291–304.

- Bailey, C., Powell, M. a Brubacher, S. (2017) The attrition of indigenous and non-indigenous child sexual abuse cases in two Australian jurisdictions. *Psychology, Public Policy, and Law*, 23(2):178–190.
- Baker, H., Miller, P., Starr, E., Witcombe-Hayes, S. a Gwilym, C. (2019) *Let Children Know You’re Listening: The Importance of an Adult’s Interpersonal Skills in Helping to Improve a Child’s Experience of Disclosure*. London: NSPCC.
- Barter, C., McCarry, M., Berridge, D. ac Evans, K. (2009) *Partner Exploitation and Violence in Teenage Intimate Relationships*. London: NSPCC.
- Beckett, H., Brodie, I., Factor, F., Melrose, M., Pearce, J., Pitts, J., Shuker, L. a Warrington, C. (2013) “It’s Wrong... but You Get Used to It.” *A Qualitative Study of Gang-associated Sexual Violence towards, and Exploitation of, Young People in England*. London: Office of the Children’s Commissioner.
- Beckett, H. a Warrington, C. (2014) *Suffering in Silence: Children and Unreported Crime*. London: Victim Support.
- Beckett, H. a Warrington, C. (2015) *Making Justice Work: Experiences of Criminal Justice for Children and Young People Affected by Sexual Exploitation as Victims and Witnesses*. Luton: University of Bedfordshire.
- Berliner, L. a Conte, J. (1995) The effects of disclosure and intervention on sexually abused children. *Child Abuse & Neglect*, 19(3):371–384.
- Bottoms, B., Peter-Hagene, L., Epstein, M., Wiley, T., Reynolds, C. a Rudnicki, A. (2016) Abuse characteristics and individual differences related to disclosing childhood sexual, physical, and emotional abuse and witnessed domestic violence. *Journal of Interpersonal Violence*, 31(7):1308–1339.
- Brattfjell, M. a Flåm, A. (2019) “They were the ones that saw me and listened.” From child sexual abuse to disclosure: Adults’ recalls of the process towards final disclosure. *Child Abuse & Neglect*, 89:225–236.
- Brazelton, J. (2015) The secret storm: Exploring the disclosure process of African American women survivors of child sexual abuse across the life course. *Traumatology*, 21(3):181–187.

Children's Commissioner for England (2015) *Protecting Children from Harm: A Critical Assessment of Child Sexual Abuse in the Family Network in England and Priorities for Action*. London: Office of the Children's Commissioner.

Collin-Vézina, D., De La Sablonnière-Griffin, M., Palmer, A. a Milne, L. (2015) A preliminary mapping of individual, relational, and social factors that impede disclosure of childhood sexual abuse. *Child Abuse & Neglect*, 43:123–134.

Cossar, J., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P. a Biggart, P. (2013) *'It Takes a Lot to Build Trust.' Recognition and Telling: Developing Earlier Routes to Help for Children and Young People*. London: Office of the Children's Commissioner.

Crisma, M., Bascelli, E., Paci, D. a Romito, P. (2004) Adolescents who experienced sexual abuse: Fears, needs and impediments to disclosure. *Child Abuse & Neglect*, 28(10):1035–1048.

Denov, M. (2003) To a safer place? Victims of sexual abuse by females and their disclosures to professionals. *Child Abuse & Neglect*, 27(1):47–61.

Easton, S., Saltzman, L. a Willis, D. (2014) "Would you tell under circumstances like that?": Barriers to disclosure of child sexual abuse for men. *Psychology of Men & Masculinity*, 15(4):460–469.

Elliott, D. a Briere, J. (1994) Forensic sexual abuse evaluations of older children: Disclosures and symptomatology. *Behavioral Sciences & the Law*, 12(3):261–277.

Feiring, C., Taska, L. a Lewis, M. (2002) Adjustment following sexual abuse discovery: The role of shame and attributional style. *Developmental Psychology*, 38(1):79–92.

Flåm, A. a Haugsvelt, E. (2013) Test balloons? Small signs of big events: A qualitative study on circumstances facilitating adults' awareness of children's first signs of sexual abuse. *Child Abuse & Neglect*, 37:633–642.

Fontes, L. a Plummer, C. (2010) Cultural issues in disclosure of child sexual abuse. *Journal of Child Sexual Abuse*, 19(5):491–518.

Foster, J. a Hagedorn, B. (2014) Through the eyes of the wounded: A narrative analysis of children's sexual abuse experiences and recovery process. *Journal of Child Sexual Abuse*, 23(5):538–557.

Gilligan, P. (2016) Turning it around: What do young women say helps them to move on from child sexual exploitation? *Child Abuse Review*, 25:115–127.

Helweg-Larsen, K. a Larsen, H. (2006) The prevalence of unwanted and unlawful sexual experiences reported by Danish adolescents: Results from a national youth survey in 2002. *Acta Paediatrica*, 95(10):1270–1276.

Hershkowitz, I., Lamb, M. a Horowitz, D. (2007a) Victimization of children with disabilities. *American Journal of Orthopsychiatry*, 77(4):629–635.

Hershkowitz, I., Lanes, O. a Lamb, M. (2007b) Exploring the disclosure of child sexual abuse with alleged victims and their parents. *Child Abuse & Neglect*, 31(2):111–123.

Horvath, M., Davidson, J., Grove-Hills, J., Gekoski, A. a Choak, C. (2014) *"It's a Lonely Journey." A Rapid Evidence Assessment on Intrafamilial Child Sexual Abuse*. London: Office of the Children's Commissioner.

Hunter, S. (2011) Disclosure of child sexual abuse as a life-long process: Implications for health professionals. *Australian & New Zealand Journal of Family Therapy*, 32(2):159–172.

Jensen, T., Gulbrandsen, W., Mossige, S., Reichelt, S. a Tjerslad, O. (2005) Reporting possible sexual abuse: A qualitative study on children's perspectives and the context for disclosure. *Child Abuse & Neglect*, 29:1395–1413.

Jonzon, E. a Lindblad, F. (2004) Disclosure, reactions and social support: Findings from a sample of adult victims of child sexual abuse. *Child Maltreatment*, 9(2):190–200.

Kogan, S. (2004) Disclosing unwanted sexual experiences: Results from a national sample of adolescent women. *Child Abuse & Neglect*, 28(2):147–165.

Lahtinen, H., Laitila, A., Korkman, J. ac Ellonen, N. (2018) Children's disclosures of sexual abuse in a population-based sample. *Child Abuse & Neglect*, 76:84–94.

- Lerner, S. (2018) Child sexual abuse: Hearing the cry for help is not always a simple task. *The Conversation* [ar-lein]. Ar gael yn: <https://theconversation.com/child-sexual-abuse-hearing-the-cry-for-help-is-not-always-a-simple-task-89599> [Cyrchu ar 29 July 2019.]
- Leclerc, B. a Wortley, R. (2015) Predictors of victim disclosure in child sexual abuse: Additional evidence from a sample of incarcerated adult sex offenders. *Child Abuse & Neglect*, 43:104–111.
- Lefevre, M., Hickle, K. a Luckock, B. (2018) ‘Both/and’ not ‘either/or’: Reconciling rights to protection and participation in working with child sexual exploitation. *The British Journal of Social Work*, advance article.
- Lefevre, M., Hickle, K., Luckock, B. a Ruch, G. (2017) Building trust with children and young people at risk of child sexual exploitation: The professional challenge. *British Journal of Social Work*, 47(8):2456–2473.
- Lemaigre, C., Taylor, E. a Gittoes, C. (2017) Barriers and facilitators to disclosing sexual abuse in childhood and adolescence: A systematic review. *Child Abuse & Neglect*, 70:39–52.
- Lippert, T., Cross, T., Jones, L. a Walsh, W. (2009) Predictors of child disclosure at forensic interview. *Child Maltreatment*, 14(1):100–113.
- London, K., Bruck, M., Wright, D. a Ceci, S. (2008) Review of the contemporary literature on how children report sexual abuse to others: Findings, methodological issues, and implications for forensic interviewers. *Memory*, 16(1):29–47.
- McElvaney, R., Greene, S. a Hogan, D. (2012) Containing the secret of child sexual abuse. *Journal of Interpersonal Violence*, 27(6):1155–1175.
- McElvaney, R. (2015) Disclosure of child sexual abuse: Delays, non-disclosure and partial disclosure. What the research tells us and implications for practice. *Child Abuse Review*, 24(3):159–169.
- McTavish, J., Sverdlichenko, I., MacMillen, H. a Wekerle, C. (2019) Child sexual abuse, disclosure and PTSD: A systematic and critical review. *Child Abuse & Neglect*, 92:196–208.
- Malloy, L., Lyon, T. a Quas, J. (2007) Filial dependency and recantation of child sexual abuse allegations. *Journal of the American Academy of Child & Adolescent Psychiatry*, 46(2):162–170.
- Mathews, S., Hendricks, N. ac Abrahams, N. (2016) A psychological understanding of child sexual abuse disclosure among female children in South Africa. *Journal of Child Sexual Abuse*, 25(6):636–654.
- Münzer, A., Fegert, J., Ganser, H., Loos, S., Witt, A. a Goldbeck, L. (2016) Please tell! Barriers to disclosing sexual victimization and subsequent social support perceived by children and adolescents. *Journal of Interpersonal Violence*, 31(2):355–377.
- O’Donohue, W., Cummings, C. a Willis, B. (2018) The frequency of false allegations of child sexual abuse: A critical review. *Journal of Child Sexual Abuse*, 27(5):459–475.
- Priebe, G. a Svedin, C. (2008) Child sexual abuse is largely hidden from the adult society: An epidemiological study of adolescents’ disclosures. *Child Abuse & Neglect*, 32(12):1095–1108.
- Radford, L., Corral, S., Bradley, C., Fisher, H., Bassett, C., Howat, N. a Collishaw, S. (2011) *Child Abuse and Neglect in the UK Today*. London: NSPCC.
- Reitsema, A. a Grietens, H. (2016) Is anybody listening? The literature on the dialogical process of child sexual abuse disclosure reviewed. *Trauma, Violence & Abuse*, 17(3):330–340.
- Sawrikar, P. a Katz, I. (2017) Barriers to disclosing child sexual abuse (CSA) in ethnic minority communities: A review of the literature and implications for practice in Australia. *Children and Youth Services Review*, 83:302–315.
- Schaeffer, P., Leventhal, J. a Gottsegen Asnes, A. (2011) Children’s disclosures of child sexual abuse: Learning from direct enquiry. *Child Abuse & Neglect*, 35:343–352.
- Schönbucher, V., Maier, T., Mohler-Kuo, M., Schnyder, U. a Landolt, M. (2012) Disclosure of child sexual abuse by adolescents: A qualitative in-depth study. *Journal of Interpersonal Violence*, 27(17):3486–3513.
- Shalhoub-Kevorkian, N. (2005) Disclosure of child abuse in conflict areas. *Violence Against Women*, 20(10):1263–1291.

Sorensen, T. a Snow, B. (1991) How children tell: The process of disclosure in child sexual abuse. *Child Welfare*, 70(1):3–15.

Springman, R., Wherry, J. a Notaro, P. (2006) The effects of interviewer race and child race on sexual abuse disclosures in forensic interviews. *Journal of Child Sexual Abuse*, 15(3):99–166.

Sullivan, P. a Knutson, J. (2000) Maltreatment and disabilities: A population-based epidemiological study. *Child Abuse & Neglect*, 24:1257–1273.

Taylor, J., Cameron, A., Jones, C., Franklin, A. a Stalker, K. (2015) *Deaf and Disabled Children Talking about Child Protection*. University of Edinburgh/NSPCC Child Protection Research Centre.

Ullman, S. (2002) Social reactions to child sexual abuse disclosures: A critical review. *Journal of Child Sexual Abuse*, 12(1):89–121.

Ungar, M., Tutty, L., McConnell, S., Barter, K. a Fairholm, J. (2009) What Canadian youth tell us about disclosing abuse. *Child Abuse & Neglect*, 33:699–708.

Warrington, C., Beckett, H., Ackerley, E., Walker, M. ac Allnock, D. (2017) *Making Noise: Children's Voices for Positive Change after Sexual Abuse*. London: Office of the Children's Commissioner.

Zalcberg, S. (2017) The place of culture and religion in patterns of disclosure and reporting sexual abuse of males: A case study of ultra Orthodox male victims. *Journal of Child Sexual Abuse*, 26(5):590–607.

## Cydnabyddiaeth

Diolch i bawb a gyfrannodd at y briff hwn, gan gynnwys yr arbenigwyr y bu i ni gysylltu â nhw ac a roes adnoddau i ni, a thîm polisi a materion cyhoeddus NSPCC Cymru a gydlynodd yr ymatebion hynny ac a'n helpodd i adolygu rhywfaint o'r llenyddiaeth.

## Papurau eraill yn y gyfres ‘Negeseuon allweddol o ymchwil’

Camfanteisio'n rhywiol ar blant:

- Negeseuon allweddol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- Negeseuon allweddol ar gyfer yr heddlu
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau'r heddlu yn strategol
- Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau ysgolion
- Negeseuon allweddol ar gyfer gwaith aml-asiantaeth
- Bylchau yn y sylfaen wybodaeth

Plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Cam-drin plant yn rhywiol yn sefydliadol

Cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Plant mewn gofal a cham-drin plant yn rhywiol

Ewch i [www.csacentre.org.uk/resources/key-messages](http://www.csacentre.org.uk/resources/key-messages)

